



Cyngor Cymuned Pennal

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

☎ 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

12fed Ionawr 2024

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD o GYNGOR CYMUNED PENNAL Nos Wener y 19eg o Ionawr 2024 am 7.30pm yn y Ganolfan , Pennal.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd cyfle i gofio, a thalu teyrnged i waith Hywel Marchlyn ar y Cyngor dros ddegawdau, tra hefyd yn cydymdeimlo a chofio yn gynnes iawn at ei deulu.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso, a sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

Derbyn ymddiheuriadau a gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 10fed o Dachwedd – gweler yn atodol.

4. Materion yn codi,

a) Materion Priffyrdd.

b) Gohebiaeth am y bwriad i gau yr A487 ger Pontarddyfi.

c) Dwr ar y ffordd o flaen Ty Alys – *nodi ymateb pellach*

d) Mynwent yr Eglwys – *penderfynnu ar y camau nesaf*

e) Asedau y Cyngor – *bydd angen diweddarau y rhestr gyda'r gwerth i bob un ased.*

f) Carafannau static Cwm Sylwi.

g) Hyfforddiant Cynghorwyr

5. Materion Cynllunio

6.Materion Cyllid.

Nodi balansau'r cyfrifon

Taliadau a wnaethpwyd (gweler e-bost dyddiedig 23.12.23) sef;

Torri gwair mynent Pennal am 2023 - £300

Torri gwair comin y Marian am 2023 - £899.64

Torch Sul y Cofio - £30.

Cydnabyddiaeth y Clerc am y trydydd chwarter/HMRC

Cais am gyfraniad ariannol gan yr Urdd.

Ystyried cyllideb drafft gan y Clerc, **a phenderfynnu y praesept ar gyfer 2024-25.**

7.Gohebiaeth

8. Unrhyw fater arall